

## HANES

Mae eirin (*Prunus domestica*) wedi cael eu tyfu ers dros 2000 o flynyddoedd. Fe'u cyflwynwyd i Ewrop gan y Rhufeiniaid, ond ychydig iawn o olion o feithrin eirin o ddirif sydd hyd nes i'r mynachlogydd ddechrau cofnodi eu gweithgareddau garddio. Yn eu ffurf bresennol, tyfir eirin ym mhob un o'r gwledydd tymherus bron.

## DEWIS SAFLE

Mae eirin yn blodeuo o gwmpas mis Ebrill, gyda'r blodau'n ymddangos cyn bod unrhyw dwf dail o sylwedd. Mae'r blodau'n agored iawn i ddirifod rhew felly rhaid i'r coed gael eu lleoli lle mae dirifod o farrug y gwanwyn yn annhebygol. Rhaid osgoi pocedi o rew, a hefyd lethrau agored lle bydd gwyntoedd oer yn tarfu ar bryfed peillio ac yn difa'r blodau.

Mewn ardaloedd lle mae'r glawiad blynyddol rhwng 50cm a 90cm y mae eirin yn ffynnu orau. Bydd eirin duon yn llwyddo mewn ardaloedd gyda glawiad uwch, a llai o heulwen, nag eirin. Mae'r mwyafrif o fathau o eirin yn hunan-ffrwythlon, ond bydd safleoedd cynnes cysgodol a fydd yn helpu peillio a ffrwythloniad cyflym y blodau yn helpu i sicrhau cynydau cyson.

Bydd y coed yn llwyddo orau mewn priddoedd lôm dwfn a thrwm a chlai wedi ei ddraenio'n dda gyda pH rhwng 6.0 a 6.5. Yn aml, bydd eirin a blennir mewn priddoedd tenau sy'n gorwedd dros sialc yn dioddef yn ddirifrol o ddiffyg haearn yn sgil calch.



Ffig 1: Eirin

## GWREIDDGYFFION A BYLCHU

Y gwreiddgyff sy'n penderfynu ar gryfder a maint terfynol coeden eirin. Mae Tabl 1 yn dangos gwreiddgyffion sydd ar gael yn rhwydd.

Bydd siâp y coed yn effeithio ar faint o fwch i'w adael rhyngddynt yn y berllan. Bydd ar goed a dyfir fel coed llwyn ar St Julian 'A' angen bwch o 4-5m, ac os tyfir ar Brompton neu Myrobalan 'B' bydd arnynt angen 6-7m. Byddai ar byramid lled-gorachaidd angen bwch o tua 3.3m.

## ARDYSTIO

Gall gwreiddgyffion a mathau o eirin gael eu heintio gan amrywiaeth o afiechydon firws; dim ond coed sydd wedi cael eu profi a'u hardystio y dylid eu plannu.

## MATHAU O GOED A THOCIO

Mae coed eirin yn fecanyddol anghymesur ac os tyfir y coed fel rhai talsyth gyda boncyff o 150cm-180cm mae'r prif ganghennau ffrwytho'n debygol o dorri o dan bwysau'r cnwd. Mae coeden aml-goes neu ¼ taldra safonol (99cm-120cm o foncyff) yn debygol o fod yn strwythur cadarnach os caniateir i'r prif ganghennau ddatblygu at i fyny ac allan cyn caniatáu iddynt hongian i lawr gyda'r cnwd.

Yn gyffredinol, cyfyngir tocio i ddechrau / canol Mehefin er mwyn lleihau'r siawns o haint dail arian. Bydd y dull a ddefnyddir yn dibynnu ar y ffurf sydd ei angen. Rhaid i'r toriadau fod cyn laned â phosibl a dylid paentio toriadau mawr gyda sêl clwyfau. Dylid cael gwared ar unrhyw bren afiach neu farw trwy ei losgi. Yn achos coed llwyni dylai'r holl flagur blaen gael eu torri'n ôl o draean a'r holl flagur eraill i 15cm oddi wrth eu prif goesyn. Dylai canol y goeden gael ei chadw rhag tyfiant gormodol er mwyn caniatáu i awyr gylchredeg yn rhydd a chynnal lefelau goleuni. Mewn cyfnod eithriadol o doreithiog o ran ffrwythau, rhaid teneuo'r cnwd, cynnal y canghennau, neu leihau'r pwysau trwy dorri ymaith rannau o ganghennau gyda chnwd gormodol arnynt.

Tabl 1 Gwreiddgyffion hawdd eu cael ar gyfer eirin

Gwreiddgyff	Twf
Pixy	Corachaidd
St Julian A	Egni cymedrol
Pershore yellow egg	Egni cymedrol ac mae'n tyfu'n dda ar briddoedd clai
Brompton	Egniol
Myrobalan B	Egniol

## PLANNU

Yr adeg orau i blannu eirin yw diwedd yr hydref pan fydd gweddill y gwres yn y ddaear yn helpu'r gwreiddiau i ymsefydlu. Dylid plannu'r goeden ar yr un dyfnder â marc y blanhigfa, gan sicrhau bod uniad yr impiad o leiaf 5cm uwchben y ddaear. Bydd y goeden yn elwa o gynhaliath polyn am ddwy flynedd gyntaf ei bywyd.

## PLÂU AC AFIECHYDON

Mae ffrwythau carreg yn dioddef o amrywiaeth o blâu ac afiechydon, gyda rhai problemau fel ysgubellau'r gwrachod heb fod o lawer o bwysa a gellir eu tocio ymaith, tra gellir rheoli Eirin Poced (*Taphrina pruni*), a all ymddangos yn y gogledd a'r gorllewin, trwy gasglu'r ffrwythau heintus a'u difa. Ceir afiechydon eraill mwy difrifol, fel cancr bacteriol, dail arian, blodau'n gwywo a dail yn cyrlio. Gall plâu fel llyslau, gwyfynnod ffrwythau eirin a llifbryfed eirin achosi difrod dinistriol os na chânt eu hadnabod a'u difa'n gynnar.

## PEILLIO

Nid oes ar y mwyafrif o eirin angen peilliadyddion. Nodir y rhai sydd yn y rhestrau o fathau. Wrth ddewis math sydd angen croes-beillio, rhaid dewis y peilliadydd o'r un grŵp er mwyn sicrhau eu bod yn blodeuo ar yr un pryd. Pryfed a gwenyn sy'n gwneud y peillio yn bennaf. Caiff gwenyn eu hystyried yn gyffredinol fel y prif gyfryngau, ond mae gwybed a gwybed ffwng yn bresennol yn gyffredinol mewn niferoedd mawr.

## TENEUO

Pan fo'r amodau'n ffafriol, gall coeden ddwyn mwy o ffrwythau nag y gall eu dal, gan arwain at ffrwythau bach neu ddifrod i'r canghennau. Os yw'r cnwd yn ymddangos yn drwm, teneuwch ar ôl cwmp Mehefin gan anelu at leiafswm o 10cm rhwng y ffrwythau. Os nad yw teneuo'n ymarferol yna ystyriwch osod polion i gynnal y canghennau.

## BWYDO

Bydd ar goeden sefydledig angen deunydd organig rheolaidd i gynnal lefelau lleithder a 28g o nitro-galch gyda 14g o sylffad potash y m<sup>2</sup> ym mis Chwefror. Cynhwyswch 28g o swper-ffosffad bob trydedd flwyddyn.



Ffig 2: Gwenyn ar flodau eirin

## MATHAU

Mae dros 2000 o wahanol fathau o eirin, yn aeddfedu ar adegau gwahanol drwy'r haf a'r hydref er nad oes ond tua dwsin ohonynt ar gael yn y siopau. Mae eirin bwyta fel arfer hyd at 10cm o hyd a gellir eu bwyta ar eu pen eu hunain. Mae eirin coginio fel arfer yn sychach gyda chnawd sur sy'n fwy delfrydol ar gyfer pasteiod, tartennau a jamiau.

- **Pershore yellow egg:** Eirinen goginio hynod o amlbwrpas y gellir ei defnyddio fel sylfaen ar gyfer jamiau.
- **Marjorie's seedling:** Math amlbwrpas, sy'n dda ar gyfer coginio neu fwyta. Mae'r ffrwythau'n fach a'r crwyn yn biws gyda gwrid gwyrrd. Mae'r cnawd yn wyrdd ac yn felys, ond mae'r crwyn yn tueddu i fod yn chwerw. Nid oes arni angen peilliadydd. (Peilliadydd grŵp E).
- **Victoria:** Y mwyaf toreithiog o'r holl fathau. Gwnaed y dewis gwreiddiol yn 1840 o egin blanhigyn strae a ganfuwyd yn Sussex. Mae'r ffrwythau mawr gyda chrwyn melyn a gwrid ysgarlad yn dda ar gyfer eu potelu, eu canio, eu stiwoo neu eu bwyta'n amrwd. Nid oes arni angen peilliadydd. (Peilliadydd grŵp C)
- **Czar:** Eirinen biws ganolig ei maint. Mae'r cnawd yn felyn-wyrdd ac yn llawn sudd. Mae'r goeden yn cynyddio'n dda a chaiff ei hystyried fel un wydn (rhywfaint o wrthsafiad rhew). Nid oes arni angen peilliadydd. (Peilliadydd grŵp C)
- **Opal:** Un o'r mathau cynharaf. Ffrwythau coch-biws sy'n debyg mewn ymddangosiad i Victoria ond yn llai eu maint. Mae i'r cnawd melyn flas fel eirinen werdd. (Peilliadydd grŵp A)
- **Toreithiog Cynnar (Early Prolific):** Un o'r mathau cynharaf. Da iawn fel eirinen fwyta pan fo'n aeddfed a gellir ei defnyddio hefyd ar gyfer coginio a jam. (Mae arni angen peilliadydd o grŵp D)

## CYNAEFU A STORIO

Fel arfer, caiff eirin eu casglu a'u gwerthu wrth iddynt aeddfedu. Gellir eu storio am gyfnod byr ac ar dymheredd o 2°C - 5°C byddant yn cynnal eu hansawdd am ryw wythnos. Bydd eu casglu cyn iddynt lawn aeddfedu a'u storio ar dymheredd isel yn cynnal eu hansawdd am gyfnod hirach.

Ymwelwch â [www.calu.bangor.ac.uk](http://www.calu.bangor.ac.uk) am fwy o dafenni. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â CALU – e-bost: [calu@bangor.ac.uk](mailto:calu@bangor.ac.uk) ffôn: 01248 680450.

Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon yn gywir, ni ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw weithredu a wneir ar sail ei chynnwys.